| | |
|---|---|
| CYFARFOD: | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| DYDDIAD: | **27 MEDI 2010** |
| TEITL: | **RHEOLAETH TRYSORLYS 2009/10** |
| PWRPAS: | **Mae'n ofynnol dan Gôd Ymarfer CIPFA i adrodd ar ganlyniadau gwir weithgarwch Rheolaeth Trysorlys y Cyngor** |
| ARGYMHELLIAD: | **DERBYN YR ADRODDIAD ER GWYBODAETH** |
| AWDUR: | **DAFYDD L EDWARDS, PENNAETH CYLLID** |

---

## 1. CYFLWYNIAD A CHEFNDIR

Cafodd Côd Ymarfer CIPFA ar Reolaeth Trysorlys ei fabwysiadu gan y Cyngor hwn ar 4 Mawrth 2003 ac mae'r Cyngor hwn yn cydymffurfio'n llawn â'i ofynion. Mae'r Côd yn ei gwneud yn ofynnol i mi adrodd ar wir ganlyniadau gweithgaredd rheolaeth trysorlys y Cyngor yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf yn erbyn yr hyn a oedd yn ddisgwyliedig. Ystyrir mai'r Pwyllgor Archwilio yw'r corff priodol i ystyried yr adroddiad hwn.

Mae'r adroddiad hwn yn cymharu ein gwir berfformiad ar gyfer 2009/10 yn erbyn y strategaeth a sefydlwyd ym mis Chwefror 2009 ar gyfer y flwyddyn ariannol (a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn yn ei gyfarfod ar 26/02/2009). Edrycha'r adroddiad ar:

- sefyllfa bresennol portffolio rheolaeth trysorlys;
- y cyfraddau llog;
- benthyca;
- aildrefnu dyledion;
- buddsoddiadau; a
- chydymffurfiad â Chyfyngiadau'r Trysorlys.

## 2. PORTFFOLIO RHEOLAETH TRYSORLYS PRESENNOL Y CYNGOR

Roedd sefyllfa'r Cyngor mewn perthynas â dyledion a buddsoddiadau ar ddechrau ac ar ddiwedd y flwyddyn fel a ganlyn:

| | | **31 Mawrth 10** | | **31 Mawrth 09** | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | **Prifswm** | **Cyfradd** | **Prifswm** | **Cyfradd** |
| Cyllid Cyfradd Sefydlog | - PWLB*<br>- Y Farchnad | £121.3m<br>£16.2m | 6.38%<br>4.11% | £121.7m<br>£16.2m | 6.22%<br>4.11% |
| Cyllid Cyfradd Cyfnewidiol | - PWLB*<br>- Y Farchnad | £0.0m<br>£0.0m | | £0.0m<br>£0.0m | |
| **Cyfanswm Dyledion** | | **£137.5m** | **6.13%** | **£137.9m** | **6.06%** |
| Buddsoddiadau | | £59.5m | 1.48% | £71.7m | 5.1% |
| **Cyfanswm Buddsoddiadau** | | **£59.5m** | **1.48%** | **£77.1m** | **£71.7m** |

*** PWLB – Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus**

## 3. CYFRADDAU LLOG

Cedwir ArlingClose Ltd, ein hymgynghorwyr rheolaeth trysorlys, i ddarparu cyngor ar faterion rheolaeth trysorlys a rhan o'u gwasanaeth yw cynorthwyo'r Cyngor i ffurfio barn ar gyfraddau llog.

### 3.1 Y Strategaeth Cyfraddau Llog

Rhagwelwyd y byddai cyfraddau llog yn y Deyrnas Unedig (DU) fel a ganlyn:

- **Cyfraddau Tymor Byr -** Gostyngwyd y cyfraddau llog gan Fanc Lloegr i 1.0% ym mis Chwefror 2009. Disgwylid y byddai'r gyfradd sylfaenol yn parhau i fod yn 1.0% hyd ail chwarter 2010, pan ddisgwylid iddi gynyddu'n araf nes cyrraedd 4.0% yn chwarter cyntaf 2012.
- **Cyfraddau Tymor Hir** - Disgwylid i gyfraddau 50 mlynedd y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB) barhau i fod yn oddeutu 3.8 - 3.9% hyd ail chwarter 2010 pan ragwelwyd y byddai'n codi i 4.0%. Disgwylid i'r gyfradd godi'n raddol i 5.0% erbyn chwarter cyntaf 2012.

### 3.2 Y Gwir Ganlyniad

Yn ystod 2009/10 roedd y gwir gyfraddau llog fel a ganlyn:

- **Cyfraddau Tymor Byr** - gwelwyd y cythrwfl gwaethaf ers rhai degawdau yn y marchnadoedd credyd ac ariannol yn 2008 ac ymestynnodd y dirwasgiad economaidd a'r gostyngiad sylweddol mewn twf i ddechrau 2009. Roedd maint y dirwasgiad yn amlwg oherwydd y gostyngiad o 5.9% o flwyddyn i flwyddyn yn y Cynnyrch Mewnwladol Crynswth (GDP) a gofnodwyd ar ddiwedd ail chwarter 2009. Er mwyn symbylu twf, cadwyd y gyfradd sylfaenol yn 0.5% gan Fanc Lloegr gydol y flwyddyn. Ceisiodd y Banc adfywio'r economi drwy ryddhau gwerth £200 biliwn i'r economi. Ni wnaeth y cyflenwad newydd o arian i'r system olygu cynnydd yn symudiad yr arian oddi mewn i'r system gan nad oedd banciau'n fodlon benthyca a defnyddwyr yn gwrthod benthyca ar yr un lefel a chyn yr argyfwng. Ar y cyfan, gostyngodd cwmnïau ac aelwydydd lefel eu dyledion yn hytrach na'u cynyddu. Fodd bynnag, roedd arwyddion o adferiad i'w gweld o'r diwedd yn chwarter terfynol 2009 gyda'r twf cofrestredig ar gyfer y chwarter yn 0.4%. Roedd y rhagolwg ar gyfer 2010 felly yn gyfnod o dwf araf ac ysbeidiol yn yr economi ynghyd a lefelau diweithdra uchel. Roedd toriadau mewn gwariant cyhoeddus a chynnydd mewn trethi bellach yn anochel.
- **Cyfraddau Tymor Hir** – Dechreuodd cyfradd 49½-50 mlynedd y PWLB y flwyddyn ar 4.53% a gorffen y flwyddyn ar 4.69%. Y pwynt uchaf yn ystod y flwyddyn oedd 4.85% ym mis Mehefin 2009 a'r isaf oedd 4.18% ym mis Hydref 2009.

## 4. BENTHYCA

### 4.1 Y Strategaeth Fenthyca yn 2009/10

Yn ystod y flwyddyn disgwyliwyd y byddai'r gyfradd sylfaenol ar lefel hanesyddol o isel. Rhoddodd hyn gyfle i awdurdodau adolygu eu strategaeth ymgymryd â benthyca allanol. Yng nghyswllt awdurdodau gyda buddsoddiadau mwy na'u hanghenion benthyca, roedd yn rhaid ystyried manteision posib benthyca mewnol. Gyda disgwyl i'r cyfraddau benthyca tymor hir fod yn uwch na chyfraddau buddsoddi, disgwyliwyd i lawer awdurdod osgoi unrhyw fenthyca newydd.

Yn seiliedig ar y rhagolwg ar gyfer cyfraddau llog, strategaeth y Cyngor ar gyfer y flwyddyn oedd lleihau ei fuddsoddiadau a olygai hefyd y fantais o leihau'r risg credyd.

Bwriad y Cyngor oedd monitro'r marchnadoedd cyfraddau llog a mabwysiadu dull pragmatig i unrhyw newid mewn amgylchiadau.

**4.2 Gwir Weithgaredd Cyfraddau Llog a Benthyca yn 2009/10**

Penderfynodd y Cyngor beidio â benthyg arian tymor hir i ariannu ei wariant cyfalaf. Yn hytrach na hyn, penderfynodd fenthyca'n fewnol ac wrth wneud hyn gostwng risg y trysorlys drwy leihau ei fuddsoddiadau. Mae'r Cyngor yn cydnabod na all defnyddio buddsoddiadau yn lle benthyca barhau am byth ac y bydd angen benthyca eto yn y dyfodol er mwyn cefnogi gwariant cyfalaf. Bydd hyn yn cael ei adolygu yn 2010/11.

## 5. AILDREFNU DYLEDION

**5.1 Y Strategaeth Aildrefnu Dyledion yn 2009/010**

Bydd unrhyw aildrefnu yn digwydd er mwyn lleihau'r risg cyffredinol i'r Cyngor yn gysylltiedig â symudiadau yn y cyfraddau llog, i leihau'r taliadau llog tymor hir a delir ar ei ddyledion ac i lyfnhau'r proffil aeddfedrwydd heb gyfaddawdu'r sefydlogrwydd cyffredinol tymor hir na newid ei broffil cyfnewidiol (h.y. bod yn agored i ddyledion gyda chyfraddau cyfnewidiol).

Daeth aildrefnu dyledion yn fwy o her ar ôl i'r PWLB gyflwyno set o gyfraddau ad-dalu is, ar wahân, ym mis Tachwedd 2007. Cynyddodd hyn y costau sy'n gysylltiedig â'r premiwm sy'n daladwy a lleihau'r disgownt derbyniadwy, gan felly leihau'r arbedion cost posib.

**5.2 Gwir Weithgaredd Aildrefnu Dyledion**

Gan nad oedd unrhyw gyfleoedd yn 2009/10, ni wnaeth y Cyngor aildrefnu unrhyw ddyledion yn ystod y flwyddyn.

Bydd portffolio'r Cyngor yn parhau i gael ei adolygu gan ArlingClose Ltd er mwyn achub ar gyfleoedd i aildrefnu dyledion.

## 6. BUDDSODDIADAU

Dros y flwyddyn roedd gan y Cyngor falansau arian cyfartalog o £79.1m (oedd yn amrywio o £55m i £105m yn ystod y flwyddyn). Mae'r rhain yn cynnwys Balansau a Chronfeydd y Cyngor, balansau arian gwaith y Cyngor â'r Gronfa Bensiwn yn ogystal â benthyciadau a dynnwyd i lawr cyn gwneud gwariant cyfalaf.

Mae'r Cyngor yn rheoli'i fuddsoddiadau yn fewnol ac yn buddsoddi gyda'r sefydliadau yn rhestr gwrth bartïon awdurdodedig y Cyngor. Mae'r Cyngor yn buddsoddi am gyfnodau amrywiol, yn cynnwys cyfnodau dros nos i hyd at flwyddyn, yn dibynnu ar lif arian y Cyngor, ei farn ar gyfraddau llog a'r cyfraddau llog sydd ar gael.

**6.1 Y Strategaeth Fuddsoddi yn 2009/10**

Yn seiliedig ar y rhagolwg y bydd cyfraddau sylfaenol yn parhau yn 1% hyd ail chwarter 2010, penderfynodd y Cyngor osgoi cloi ei hun mewn cytundebau tymor hir tra bod y cyfraddau llog ar lefel hanesyddol o isel. Byddai'r Cyngor felly yn cadw ei fuddsoddiadau yn rhai tymor byr. Ar gyfer ei falansau llif arian, byddai'r Cyngor yn ceisio defnyddio ei gyfrifon busnes wrth gefn ac ernesau cyfnod byr (dros nos i dri mis) er mwyn manteisio ar y llog cyfansawdd.

**6.2 Gwir Weithgaredd Buddsoddi yn 2009/10**

Gweler isod fanylion ynghylch canlyniad y strategaeth fuddsoddi a gwblhawyd gan y Cyngor yn ystod y flwyddyn.

| | **Y Gyfradd Adenillion a gafwyd gan Gyngor Gwynedd** | **Adenillion Meincnod*** |
|---|---|---|
| Rheolir yn fewnol | 1.485% | 0.3895% |

***Y meincnod ar gyfer cronfeydd a reolir yn fewnol yw cyfradd 7-diwrnod LIBID (anghyfun) a geir yn y Financial Times.**

Gwerth ariannol y gwahaniaeth rhwng cyfradd adenillion y Cyngor a'r adenillion meincnod ar gyfer cronfeydd a reolir yn fewnol oedd £903,023 (nid yw'r adenillion uchod yn cynnwys buddsoddiadau ym Manc Heritable yr ymdrinnir â hwy isod).

Yn sgil yr argyfwng bancio, roedd hyder yn y marchnadoedd yn fregus iawn ac roedd risg y cyd bartïon ar ei uchaf. Ymateb y Cyngor oedd cyfyngu'r benthyciadau newydd i sefydliadau yn y DU oedd yn derbyn Cynllun Gwarant Credyd 2008 y Llywodraeth a chyda statws credyd yn y categori 'Dwy A'. Dim ond wyth sefydliad oedd yn bodloni'r maen prawf hwn. Maent yn cynnwys: Abbey National, Banc Barclays, Banc Clydesdale, Banc HSBC, Banc Lloyds TSB a Banc yr Alban (y ddau olaf yn rhan o Grŵp Bancio Lloyds), Cymdeithas Adeiladu'r Nationwide a Banc Brenhinol yr Alban.

Gwnaed 504 buddsoddiad yn ystod y flwyddyn. Mae gan Uned Fuddsoddi'r Cyngor darged mewnol o fuddsoddi 100% o'r arian mewn sefydliadau gyda statws credyd AA – neu uwch. Llwyddodd yr uned i gyrraedd y targed yn 2009/10. Roedd y gwir ganrannau fel a ganlyn:

| **Statws Credyd** | **Canran** |
|---|---|
| AAA | 0% |
| AA+ | 0% |
| AA | 2% |
| AA- | 98% |
| A+ | 0% |
| A | 0% |
| A- | 0% |
| **CYFANSWM** | **100%** |

Mae'r statws credyd yn mynd o AAA (giltiau) lawr i A, B, C ac yna D (sef diffyg credyd).

Er gwaetha'r flaenoriaeth a roddwyd i ddiogelwch yr arian (yn hytrach nac uchafu'r llog a geir) mae risgiau yn parhau i fodoli.

Fel yr adroddwyd yn flaenorol, roedd gan y Cyngor adnau o £4m gyda Banc Heritable. Amlinellodd yr adroddiad cynnydd credydwyr diweddaraf a gyhoeddwyd gan y gweinyddwyr Ernst and Young y rhagwelwyd y byddai'r enillion i gredydwyr yn 85c yn y £ erbyn diwedd 2012. Mae gweinyddwyr Banc Heritable eisoes wedi talu pedwar difidend i gredydwyr:

16.13 ceiniog yn y £ ar 28 Gorffennaf 2009;
12.66 ceiniog yn y £ ar 18 Rhagfyr 2009;
6.19 ceiniog yn y £ ar 30 Mawrth 2010;
6.27 ceiniog yn y £ ar 16 Gorffennaf 2010.

Hyd yn hyn, mae'r Cyngor wedi derbyn enillion o £1,657,867 gan y gweinyddwyr. Wrth gwrs, gallai'r gwir golled erbyn 2012 fod yn fwy neu'n llai na'r hyn y'i rhagolygwyd. Os yw'r sefyllfa economaidd yn gwella a gwerth eiddo yn benodol yn cynyddu, hwyrach na fydd unrhyw golled o gwbl.

Roedd pob buddsoddiad a wnaed yn ystod y flwyddyn yn cydymffurfio â'r Strategaeth Rheolaeth trysorlys, Dangosyddion Darbodus, Arferion Rheolaeth trysorlys a chyfyngiadau a osodwyd ac a gytunwyd arnynt gan y Cyngor.

## 7. CYDYMFFURFIO Â CHYFYNGIADAU'R TRYSORLYS

Yn ystod y flwyddyn ariannol, gweithredodd y Cyngor o fewn cyfyngiadau'r trysorlys fel y nodwyd yn Natganiad Polisi Rheolaeth Trysorlys y Cyngor a Datganiad Strategaeth Rheolaeth Trysorlys.

## 8. ARGYMHELLIAD

Gofynnir i'r pwyllgor dderbyn yr adroddiad er gwybodaeth.